

# Polisi Coleg Penybont Bridgend College Policy



Enw'r Polisi / Policy Name: **Derbyniadau**

Cod y ddogfen / Document code (os yn berthnasol / if applicable)

Awdur y Ddogfen / Document Author: **Joe Baldwin**

Teitl Swydd / Job Title: **Dirprwy Bennaeth ar gyfer Taith y Dysgwr**

Dyddiad Cymeradwyo / Date of Approval: **Corff Llywodraethu – 17 Mawrth 2021**

Dyddiad Adolygu / Review Date: **Mawrth 2024**

# Polisi Coleg Penybont

## Bridgend College Policy



### Rhestr Wirio'r Polisi:

Gofynion ar gyfer Llunio'r Polisi		Gwybodaeth Atodol
Ydy'r Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	✓	
Ydy'r Aseiad Effaith ar y Gymraeg wedi cael ei gwblhau? Gweler y ffurflen isod.	✓	
Ydy Aseiad Effaith ar Ddiogelu Data wedi cael ei ystyried ynghylch y polisi hwn? Os ydyw, cysylltwch â'r Rheolwr Gwasanaethau Gwybodaeth i gwblhau Aseiad Effaith ar Ddiogelu Data.	✓	Prosesau a system eisoes yn cyd-fynd â'r cynllun cadw data ac yn cydymffurfio â GDPR
Ydy'r adolygiad wedi cymryd y Canllawiau/Deddfwriaeth ddiweddaraf i ystyriaeth?	✓	
Oes angen cyngor cyfreithiol? Os oes, sicrhewch eich bod wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau'r cyngor cyfreithiol priodol cyn parhau.	✓	Eisoes wedi'i wneud trwy Capital Law
Oes angen hyfforddi staff? Os oes, sicrhewch fod yr hyfforddiant angenrheidiol wedi cael ei drefnu drwy'r Cynghorydd Dysgu a Datblygu.	X	
Oes unrhyw faterion sy'n gysylltiedig ag Adnoddau Dynol sydd angen eu hystyried? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr AD i drafod hyn ymhellach.	X	
Oes unrhyw faterion ariannol cysylltiedig? Os oes, cysylltwch â'r Rheolwr Cyllid i drafod hyn ymhellach.	X	

### 1.0 Gwerthoedd

Mae Coleg Penybont wedi ymrwymo i alluogi ei ddysgwyr a'i staff i gyflawni ei genhadaeth i 'fod yn bopeth y gallwch fod'. Ein nod yw gwneud hyn drwy ddarparu ystod amrywiol o gyfleoedd addysg a hyfforddiant sy'n diwallu anghenion ein cymuned a'n cyflogwyr a hefyd drwy godi ymwybyddiaeth o gydraddoldeb a hawliau dynol, dathlu amrywiaeth a herio anghydraddoldeb, anfantais, rhagfarn, gwahaniaethu, aflonyddu a chamdriniaeth o bob math.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod dewisiadau a chynigion cwrs er budd addysgol gorau dysgwr unigol, gan eu galluogi i gyflawni a gwneud cynnydd (o ran sgiliau personol ond hefyd datblygiad cymdeithasol ac academaidd).

Mae egwyddorion y polisi hwn yn berthnasol i unrhyw un sy'n gwneud cais am gwrs addysg bellach yng Ngholeg Penybont.

### 2.0 Ein hymrwymiad

Nod ein tîm Gwasanaethau Myfyrwyr yw:

- Ymateb i bob ymholiad mewn modd clir ac yn brydlon
- Darparu proses ymgeisio hygyrch ac effeithlon
- Darparu profiad rhagorol i gwsmeriaid
- Cyfeirio ymgeiswyr at, a darparu, gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaol a ddarperir gan staff cymwys
- Cyfeirio ymgeiswyr at wybodaeth am gymorth ariannol, lles a chymorth dysgu ychwanegol
- Cael adborth gan ein hymgeiswyr i werthuso a gwella'r gwasanaeth
- Trin pob cais mewn modd teg a chyson a gyda pharch, gan roi sylw dyledus i'n dyletswyddau a'n rhwymedigaethau gan gynnwys o dan y Ddeddf Cydraddoldeb, y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) a Safonau'r Gymraeg
- Gweithio'n agos gyda thimau cwricwlwm i ddarparu cyfweiliadau a digwyddiadau cadw mewn cysylltiad a chofrestru rhagorol
- Gwneud penderfyniadau amserol a gweithredu'n gymesur ar sail y wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael a chymhwyso egwyddorion addasiadau rhesymol lle bo hynny'n gyfreithlon ac yn angenrheidiol

### 3.0 Cefnogaeth i chi

Rydym wedi ymrwymo i ddarparu'r cymorth a'r arweiniad gorau oll i ymgeiswyr. Er mwyn ein galluogi i wneud hyn, rydym yn annog ymgeiswyr i ddatgelu unrhyw anghenion cymorth neu ddysgu, dewis iaith neu euogfarnau troseddol sydd ganddynt wrth gyflwyno eu cais. Mae ffurflenni hunanddatgelu yn rhan hollbwysig o wneud cais i astudio yng Ngholeg Penybont ac mae'n sicrhau ein bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus sy'n seiliedig ar wybodaeth gywir.

Gallwn ddarparu cefnogaeth i gwblhau a chyflwyno ceisiadau, ynghyd â chefnogaeth mewn cyfweiliadau. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod i ni os oes gennych unrhyw anghenion hygyrchedd cyn eich cyfweiliad fel y gallwn sicrhau eich bod yn cael profiad cadarnhaol.

Mae nifer o nodweddion hygyrchedd wedi'u cynnwys yn ein gwefan a'n system ymgeisio ar-lein i gefnogi anghenion a dewisiadau defnyddwyr unigol.

### 4.0 Y Gymraeg

Rydym yn croesawu ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg ac mae ein system ymgeisio ar-lein ar gael i unigolion yn y naill iaith neu'r llall. Anogir ymgeiswyr i nodi eu dewis o ran iaith gyfathrebu wrth wneud cais. Bydd gohebiaeth electronig ac ysgrifenedig yn ystod eich taith dderbyn yn eich dewis iaith.

### 5.0 Meini prawf mynediad

Mae gan lawer o gyrsiau yn y coleg feini prawf mynediad i sicrhau bod unigolion yn ymwybodol o ofynion academiaidd, cyflymder a thrwyadled lefel benodol o astudio neu ddull cyflwyno penodol. Mae rhai cyrff dyfarnu cymwysterau yn gofyn am gyflawniad ar lefel flaenorol, tystiolaeth o ddysgu blaenorol neu broffil penodol o raddau TGAU (neu gyfwerth).

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau ein bod yn gwneud yr addasiadau rhesymol sydd eu hangen i sicrhau bod rhwystrau i ddysgu yn cael eu lleihau a/neu eu dileu lle bynnag y bo modd ac yn unol â'n dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Mae cynnig lle ar rai cyrsiau yn gofyn am ymgymryd â gweithgareddau wedi'u hasesu, er enghraifft profion marchogaeth, cyflwyno gwaith portffolio, tasg ysgrifenedig neu glyweliad (nid yw'r rhestr hon yn hollgynhwysol). Mae rhai cyrsiau hefyd yn gofyn am gwblhau gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) (am ragor o wybodaeth, cyfeiriwch at yr adran berthnasol yn y polisi hwn).

Amlinellir y meini prawf mynediad ar gyfer pob cwrs ar dudalen y cwrs perthnasol ar wefan y coleg. Cysylltwch â'n tîm Gwasanaethau Myfyrwyr os oes unrhyw gwestiynau gennych.

### 5.1 Cymraeg, Saesneg a Mathemateg

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr nad ydynt wedi ennill gradd A\*(9) - C (4) mewn TGAU Cymraeg, Saesneg neu Fathemateg barhau i astudio a datblygu'r sgiliau hyn fel rhan o'u rhaglen alwedigaethol. Mae'n ofynnol i ymgeiswyr sydd wedi ennill gradd D (3) barhau â'u hastudiaeth TGAU ac ailsefyll yr arholiad fel rhan o'u rhaglen alwedigaethol. Bydd ymgeiswyr sydd wedi cyflawni llai na gradd D yn parhau i ddatblygu eu sgiliau trwy feithrin a datblygu sgiliau Mathemateg a/neu Gymraeg/Saesneg trwy ein rhaglen sgiliau craidd.

Ni fydd y Coleg yn darparu cymorth i ymgeisydd ailsefyll arholiad os ydynt eisoes wedi cyflawni Gradd A\*(9) - C (4).

### 5.2 Preswylid yn y DU

Os bydd ymgeisydd yn datgan nad yw wedi byw yn y Deyrnas Unedig (DU) neu'r Undeb Ewropeaidd (UE) am y tair blynedd diwethaf a/neu eu bod yn preswylid ar fisa, caiff y cais ei gyfeirio at y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr i'w asesu cyn cydnabod y cais.

Os yw ymgeisydd yn byw ar fisa Caniatâd Amhenodol i Aros (ILR), Preswylid Parhaol (PR), neu Ganiatâd Amhenodol i Gael Mynediad (ILE), cysylltir â'r ymgeisydd i ofyn iddynt ddarparu eu pasbort neu gerdyn adnabod biometrig a'u fisa.

Bydd angen i o leiaf 18 mis fod ar ôl ar fisa ymgeisydd i symud ymlaen â'u cais.

Mae'r coleg yn gallu pennu cymhwysra ffioedd 'cartref' gan ddefnyddio'r 'Canllaw ar y fframwaith cyllido a chynllunio ôl-16' yn ogystal â gwybodaeth arall a ddarperir gan Gyngor Materion Rhyngwladol y DU (UKCISA) a diweddariadau rheolaidd gan y Swyddfa Gartref.

<https://www.ukcisa.org.uk/Information--Advice/Fees-and-Money/Wales-fee-status#layer-6100>

### 5.3 Ceisiadau blaenorol neu gyfredol gan fyfyrwyr Coleg Penybont

Mae ymgeiswyr sydd wedi astudio yng Ngholeg Penybont o'r blaen neu sy'n dymuno symud ymlaen, yn destun i'r holl ofynion a amlinellir yn y polisi hwn, er na fydd yn ofynnol i unigolion sy'n dymuno symud ymlaen o fewn yr un cwrs a maes cwricwlwm gael cyfweiliad fel mater o drefn. Mae unrhyw gwrs newydd a gynigir yn amodol ar gwblhau rhaglen astudio gyfredol yn llwyddiannus ac ar ystyried presenoldeb a statws dinasyddiaeth/disgyblaeth unigolyn.

Mae'r coleg yn cadw'r hawl i beidio â symud cais neu gynnig cwrs yn ei flaen os yw unigolyn wedi bod yn destun i god dinasyddiaeth/disgyblaeth y coleg neu os yw presenoldeb, ymddygiad neu gyflawniad mewn perthynas â chwrs blaenorol yn anfodhaol.

Mae'r coleg yn cydnabod, i rai unigolion, er enghraifft, y gall dysgwr ag angen dysgu ychwanegol (ADY), symud ymlaen yn ochrol, gan ennill ystod eang o sgiliau a dysgu, yn hytrach na symud ymlaen trwy lefelau dysgu.

### 6.0 Diogelu

Mae Coleg Penybont yn gwbl ymroddedig i lesiant myfyrwyr, staff, ymwelwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae'r Coleg yn hyrwyddo lles cadarnhaol y staff a myfyrwyr i gyd yn weithredol, gan gynnwys oedolion sy'n agored i niwed a'r rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY), ac mae'n disgwyl bob aelod staff, gwirfoddolwr a phartner, gan gynnwys cyflogwyr cysylltiedig a darparwyr lleoliadau gwaith, gefnogi a dangos yr ymrwymiad hwn bob amser.

### 6.1 Euogfarnau

Mae Deddf Adsefydlu Troseddwyr (1974) yn ei wneud yn ofynnol i unigolion sydd ag euogfarnau heb eu disbyddu (o dan eich cyfnod adsefydlu). Rydym yn gweithio gyda NACRO, yr elusen cyfiawnder cymdeithasol blaenllaw i sicrhau, lle bynnag y bo modd, ein bod yn gallu amddiffyn a diogelu pob unigolyn a chefnogi adsefydlu.

Mae gennych ddyletswydd gyfreithiol i ddatgelu unrhyw euogfarnau heb eu disbyddu ar adeg cyflwyno a gwneud cais i'r coleg. Ar ôl datgelu, bydd ein tîm llesiant yn cysylltu â chi i gael rhagor o wybodaeth, gan ein galluogi i weithio gyda sefydliadau eraill i asesu'n briodol unrhyw risg neu gymorth y gallai fod ei angen. Os ydych yn ansicr a oes angen i chi ddatgelu euogfarn, cysylltwch â ni.

### 6.2 Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Mae rhai cyrff cyhoeddus a phroffesiynol yn cynnal gofynion llym o ran addasrwydd i ymarfer ar gyfer y rheini sy'n dymuno ymgymryd â rhai gyrfaoedd sydd wedi'u categorio fel gweithgareddau a reoleiddir gyda phlant neu oedolion sydd agored i niwed. Mae meysydd cwrs sydd angen gwiriad DBS yn cynnwys gofal plant a blynyddoedd cynnar, iechyd a gofal cymdeithasol.

Os oes gan gwrs leoliad gwaith gorfodol fel rhan o waith cyffredinol a chwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, efallai y bydd yn ofynnol i ymgeisydd gwblhau gwiriadau gan ddefnyddio'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

Mae'r coleg yn cadw'r hawl i wrthod mynediad i gwrs neu dynnu cynnig cwrs yn ôl os byddai hysbysiad trwy wiriad DBS yn golygu na fyddai ymgeisydd yn gallu ymarfer neu ddilyn ei yrfa o ddewis o ganlyniad i'r gwiriad.

### 6.3 Asesiadau Risg

Mae yna amgylchiadau lle gall y coleg ystyried bod asesiad risg yn hanfodol os credir y gallai bod effaith ar ddiogelwch, lles neu iechyd ymgeisydd a/neu ddysgwyr/staff eraill. Mae'r coleg yn cadw'r hawl i ymgysylltu ag asiantaethau allanol i helpu i lywio neu gyd-gynhyrchu asesiad risg, i sicrhau ein bod yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus, sy'n dangos cefnogaeth ac addasiadau rhesymol sy'n gymesur.

### 7.0 Cyngor ac arweiniad

Mae gan y coleg dîm o gynghorwyr gyrfaoedd gwybodus a chymwys (o'r enw Cyfleoedd) sy'n gallu darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd un-i-un. Mae gwefan y coleg yn cynnwys gwybodaeth am gyfleoedd cyflogaeth lleol sy'n ymwneud â meysydd cwrs ynghyd â mynediad at 'Hyfforddwr Gyrfa', a fydd yn eich galluogi i ateb cyfres o gwestiynau ac yna'n adeiladu argymhellion cwrs wedi'u personoli yn seiliedig ar eich diddordebau. Gallwch gael mynediad at ein Hyfforddwr Gyrfa ar-lein rhad ac am ddim yma: <https://bridgend.emsicc.com/?radius=&region=Bridgend>

Os hoffech chi drefnu apwyntiad cyngor, cysylltwch â'r tîm Cyfleoedd o fewn Gwasanaethau Myfyrwyr ar 01656 302 302 neu e-bostiwch [cyfleoedd@bridgend.ac.uk](mailto:cyfleoedd@bridgend.ac.uk)

### 7.1 Cymorth pontio i ymgeiswyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol

Efallai y bydd angen pecyn o ddarpariaeth dysgu ychwanegol wedi'i bersonoli ar rhai ymgeiswyr. Gall ein tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ddarparu cymorth ychwanegol trwy fynychu adolygiadau blynyddol yn yr ysgol a chefnogi ymgeiswyr yn ystod cyfweiliadau, diwrnodau cadw mewn cysylltiad ac wrth ymrestru. Gall y tîm ADY drefnu gweithgareddau pontio pwrpasol, gan gynnwys ymweliadau ychwanegol â'r campws, a byddant yn gweithio gyda chi i ddatblygu cynllun cymorth unigol, i gyflawni eich dyheadau a'ch canlyniadau unigol. Os hoffech drafod eich anghenion cymorth dysgu ychwanegol ymhellach, cysylltwch â'r tîm ADY ar 01656 302 302 estyniad 339 neu e-bostiwch [aln@bridgend.ac.uk](mailto:aln@bridgend.ac.uk)

## 8.0 Y cylch derbyniadau

### 8.1 Ymgeisio

Rydym yn argymhell, lle bynnag y bo modd, bod ymgeiswyr yn mynychu digwyddiad agored yn y coleg cyn gwneud cais. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddarpar ymgeiswyr gwrdd â staff cwrs, archwilio'r coleg a'i gyfleusterau a chwrdd â'n timau cymorth i fyfyrwyr.

Dylai ymgeiswyr wneud cais gan ddefnyddio'r ffurflen gais ar-lein. Gall y tîm Gwasanaethau Myfyrwyr ddarparu cymorth. Argymhellir yn gryf bod ymgeiswyr yn gwneud cais am uchafswm o ddau gwrs. Mae Coleg Penybont yn gweithredu dull 'y cyntaf i'r felin' o recriwtio ac yn annog ceisiadau cynnar.

Dim ond gan unigolion a fydd yn 16 oed ar yr 31ain o Awst cyn dyddiad dechrau eu cwrs y gall y coleg dderbyn ceisiadau.

Mae myfyrwyr Addysg Uwch sy'n gwneud cais i astudio cwrs rhan amser yng Ngholeg Penybont hefyd yn ymgeisio ac yn rheoli eu taith dderbyn trwy ein system cyfrif ar-lein (ac eithrio rhaglen radd BSc (Anrh) Gwaith Cymdeithasol, a reolir trwy UCAS).

### 8.2 Cyfweiliad / cyflwyno portffolio / Tasg

Mae angen cyfweiliad ar gyfer rhai cyrsiau er mwyn galluogi tiwtoriaid cwrs i sicrhau bod ymgeisydd yn bodloni'r gofynion a nodir gan y corff dyfarnu (e.e. ein cyrsiau cwnsela a achredir gan CPCAB).

Mewn achosion lle mae gormod o geisiadau am gwrs neu lle mae angen gwybodaeth, profiad neu sgiliau blaenorol, efallai y gofynnir i ymgeiswyr lanlwytho portffolio o waith, cyflwyno geirda, cwblhau tasg neu fynychu sesiwn wybodaeth fel rhan o'u taith cais gyda ni. Lle bo angen hyn, fe fydd yn ofynnol i bob ymgeisydd gymryd y camau derbyn ychwanegol ar gyfer y cwrs hwnnw, gan sicrhau bod pob ymgeisydd yn cael profiad cyson a theg.

Gellir cynnal cyfweiliadau a sesiynau gwybodaeth i ymgeiswyr, yn wyneb yn wyneb neu ar-lein.

### 8.3 Cynigion a derbyn

Yn dilyn cais, cyfweiliad neu adolygiad o dasg neu bortffolio a gyflwynwyd, bydd ymgeisydd yn derbyn un o'r canlynol fel cam nesaf.

#### 1. Cais Diamod

Ar sail ar eich cyflawniad a/neu eich cymwysterau blaenorol neu ddisgwyliedig, rydych chi wedi cael cynnig lle ar gwrs.

#### 2. Cais Amodol

Rydych chi wedi cael cynnig lle ar gwrs yn amodol ar un neu fwy o amodau, a allai gynnwys cyflawni graddau disgwyliedig mewn cymhwyster, cwblhau clyweiliad neu asesiad, neu gwblhau cwrs presennol yn llwyddiannus.

#### 3. Atgyfeiriad am gyngor ac arweiniad

Dim ond un cynnig byw y bydd y coleg yn ei ganiatáu i unrhyw ymgeisydd. Mae hyn yn sicrhau bod argaeledd cyrsiau a lleoedd ar gyrsiau yn deg i bob ymgeisydd.

Dim ond ymgeiswyr sydd wedi derbyn cynnig cwrs fydd yn cael sicrwydd o le ar gwrs. Pan gynigir lle ar gwrs i ymgeisydd ond nad yw'n derbyn hwn drwy ei gyfrif ar-lein o fewn pythefnos, mae'r coleg yn cadw'r hawl i ailddyrrannu'r lle hwn.

### 8.4 Diwrnodau Cadw mewn Cysylltiad

Bob blwyddyn mae'r coleg yn cynnal digwyddiadau i helpu ymgeiswyr i gael y wybodaeth ddiweddaraf am ein llwyddiannau ac i wneud cychwyn ar eich taith gyda ni mor hawdd a chyffrous â phosibl.

Yn ystod mis Mehefin a Gorffennaf bob blwyddyn byddwn yn gwahodd pob myfyriwr addysg bellach llawn amser i ymuno â ni ar gyfer diwrnod 'cadw mewn cysylltiad'. Mae hwn yn gyfle i ymgeiswyr gwrdd



â'u tiwtoriaid a myfyrwyr eraill ar y cwrs ac i archwilio eu hadran. Rydym yn annog yn gryf i bob ymgeisydd a wahoddir i fynychu. Gall y diwrnodau yma gael eu cynnal ar y campws neu ar-lein.

### 8.5 Ymrestru

Mae ein prif gyfnod ymrestru yn digwydd yn ystod wythnos olaf mis Awst bob blwyddyn. Bydd pob ymgeisydd sydd wedi derbyn cynnig cwrs yn cael ei wahodd i ymrestru ar-lein. Bydd gofyn i chi ddarparu dull adnabod, tystysgrifau cymwysterau a ffioedd ymrestru/ffioedd sy'n ymwneud â chyrsgiau (naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb). Bydd manylion llawn am ymrestru yn cael eu hanfon trwy e-bost at bob ymgeisydd ddiwedd mis Gorffennaf.

### 8.5 Ceisiadau hwyr

Gellir ystyried ceisiadau hwyr yn ystod 6 wythnos gyntaf unrhyw gwrs llawn amser. Fodd bynnag, bydd hyn yn dibynnu ar argaeledd lleoedd ar gwrs, y math o gwrs a gallu'r unigolyn i ddal i fyny ag unrhyw ddysgu a gollwyd.

### 9.0 Tynnu cynnig yn ôl

Rydym yn cadw'r hawl i dynnu cynnig cwrs yn ôl pan fydd gwybodaeth a ddarperir ar gais neu fel rhan o'r broses dderbyn, gan gynnwys cyfweiliad ymrestriad, yn effeithio ar allu'r coleg i ddiogelu'r ymgeisydd, myfyrwyr eraill, staff neu randdeiliaid yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys hepgor gwybodaeth sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol a fyddai'n effeithio ar allu'r coleg i ddarparu'r cymorth neu'r adnoddau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion yn rhesymol.

Mae rhai o'r rhesymau y gallai cynnig gael ei dynnu'n ôl yn cynnwys (er nad yw'n hollgynhwysol):

- Peidio â datgelu euogfarn sydd heb ei disbyddu
- Gwybodaeth anghywir neu ffug (gan gynnwys gwybodaeth bersonol)
- Peidio â datgelu anghenion cymorth dysgu ychwanegol sydd wedyn yn effeithio ar brofiad unigolyn (e.e. anghenion mynediad a chymorth)
- Gwrthod cynnal asesiadau rhesymol a allai helpu i ganfod lefel academaidd neu lefel sgil i sicrhau llwyddiant ar gwrs neu i fodloni gofynion allanol.

Efallai y bydd amgylchiadau lle bydd dyletswydd y coleg i ddiogelu a'i bolisi diogelu neu ei bolisi addaswydd i ddysgu yn disodli'r polisi hwn.

### 10.0 Trosglwyddiadau

Rydym wedi ymrwmo i sicrhau bod myfyrwyr yn hapus ar y cyrsiau y maen nhw wedi'u dewis, ond rydym yn deall weithiau y gall unigolion fod eisiau newid eu cwrs neu eu llwybr gyrfa.

Yn ystod cyfnod ymgynffwrdd yr coleg, mae ein hymgyrch 'cyfnewid nid gollwng' wedi'i gynllunio i gefnogi myfyrwyr drwy ddarparu arweiniad, cymorth a chynghor gyrfaoedd. Os nodir cwrs amgen addas, mae lle ar gael ar y cwrs a bod y ddau faes cwrs yn gytûn (yr un presennol a'r un newydd), efallai y bydd modd trosglwyddo. Byddai hyn yn amodol ar dalu unrhyw ffioedd cwrs neu ffioedd ddeunyddiau ychwanegol.

### 11.0 Apeliadau

Ein nod yng Ngholeg Penybont yw rhoi profiad rhagorol i bob cwsmer, ond rhowch wybod i ni os oes rhywbeth y galllem fod wedi ei wneud yn well.

Lle bynnag y bo modd, rydym yn annog unigolion i ddefnyddio ein system adborth 'Eich Llais' i rannu syniadau, canmoliaeth neu bryderon gyda ni. Gallwch gael mynediad i'n porth adborth drwy fynd i [www.bridgend.ac.uk/your-voice](http://www.bridgend.ac.uk/your-voice). Mae cardiau post hefyd ar gael yn y derbynfydd ar ein campysau.

Os yw ymgeisydd yn anfodlon â phenderfyniad ynghylch ei gais, mae ganddo'r hawl i gyflwyno apêl. Dylai'r apêl nodi rhesymau clir dros yr apêl a darparu unrhyw dystiolaeth ategol.

Dylid gwneud apeliadau yn ysgrifenedig a'u cyfeirio at:

Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr  
Coleg Penybont  
Heol y Bont-faen  
Pen-y-bont ar Ogwr  
CF31 3DF

Bydd yr apêl yn cael ei chydnabod ac yna bydd y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr yn cyfarfod â'r ymgeisydd a'i riant/gofalwr (os yw dan 18 oed) i drafod eu cais. Lle bo'n briodol a/neu'n angenrheidiol bydd y Rheolwr Gwasanaethau Myfyrwyr yn ymgynghori â, ac yn gwneud argymhelliad i'r Pennaeth Cynorthwyol ar gyfer Taith y Dysgwyr, a bydd ei benderfyniad yn derfynol. Hysbysir yr ymgeisydd o'r canlyniad ac unrhyw gamau i'w cymryd yn ysgrifenedig o fewn 28 diwrnod i ddyddiad cydnabod derbyn yr apêl.

### Polisiau cysylltiedig

Polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)  
Cod Dinasyddiaeth  
Ffitrwydd i Ddysgu  
Diogelu (gan gynnwys Prevent)  
Gweithdrefn Gwyno (Eich Llais)  
Polisi Cadw Data a GDPR

### ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

<b>Enw'r Polisi / Gweithdrefn</b>	Polisi Derbyniadau					
<b>Perchennog y Polisi</b>	Joe Baldwin					
<b>Nod(au) a Phwrpas y Polisi</b>	Sicrhau dull teg a chyson o brosesu a rheoli derbyniadau yng Ngholeg Penybont, yn unol â'n dyletswyddau dan amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth fel yr amlinellir yn y ddogfen bolisi.					
<b>Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?</b>	<b>Dysgwyr</b>	✓	<b>Staff</b>	✓	<b>Y Cyhoedd</b>	✓

Nodwedd gydraddoldeb	Effaith gadarn-haol	Effaith niwtral	Effaith negyddol	Rheswm/sylw
Oedran		✓		
Anabledd		✓		
Ailbennu rhywedd		✓		
Priodas a phartneriaeth sifil		✓		
Beichiogrwydd a mamolaeth		✓		
Hil		✓		
Crefydd neu gred		✓		
Rhyw		✓		
		✓		

Dyddiad cwblhau: 8 Mawrth 2021

Llofnod y Rheolwr a gwblhaodd yr asesiad: J. Baldwin

## Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

<b>Enw'r Polisi / Gweithdrefn</b>	Polisi Derbyniadau					
<b>Perchennog y Polisi</b>	Joe Baldwin					
<b>Nod(au) a Phwrpas y Polisi</b>	Sicrhau dull teg a chyson o brosesu a rheoli derbyniadau yng Ngholeg Penybont, yn unol â'n dyletswyddau dan amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth fel yr amlinellir yn y ddogfen bolisi.					
<b>Ar bwy mae'r polisi hwn yn effeithio?</b>	<b>Dysgwyr</b>	✓	<b>Staff</b>	✓	<b>Y Cyhoedd</b>	✓

## Safonau'r Gymraeg

Rhif	Math	Safon	Cadarnhaol (gallai fod o fudd)	Negyddol (gallai effeithio)	Dim Effaith
94	Safonau Llunio Polisi	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid i chi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn ei gael ar — (a) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Bydd y polisi hwn a'r gwaith papur cysylltiedig ar gael yn Gymraeg		x

## Cynllun Gweithredu

Dylai camau gweithredu ddangos y camau i'w cymryd i leihau neu, lle bo modd, ddileu unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg.

Gweithred	Pwy	Erbyn Pryd	Mesur Llwyddiant / (sut y byddwn ni'n gwybod ein bod wedi cyflawni'r camau gweithredu)

Dyddiad Cwblhau'r Asesiad: 8 Mawrth 2021